

**CYNLLUN GWERS MAWNOGYDD SIR GAERFYRDDIN**

<b>Pwnc</b>	<b>Uned</b>	<b>Gwers</b>	<b>Cyfnod allweddol</b>
<b>Hanes</b>	<b>1</b>	<b>Dehongli ac ymchwilio i sut mae Mawnogydd Sir Gaerfyrddin wedi datblygu dros amser.</b>	<b>CA2/3</b>
<b>Pwnc: Archwilio datblygiad mawnogydd dros amser.</b>			
<b>Amcanion:</b> Erbyn diwedd y wers hon: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai disgyblion ddysgu faint o amser a gymerodd hi i'r mawnogydd ffurfio</li> <li>• Dylai disgyblion allu adnabod newidiadau yn y dirwedd.</li> <li>• Bydd disgyblion yn deall trefn digwyddiadau yn hanes y safle.</li> </ul>			
<b>Geiriau allweddol:</b> Oes Iâ, Mesolithig, Oes Efydd, Oes Haearn, heddiw, llinell amser, mawnogydd.			
<b>Cyflwyniad / ISM:</b> Llun o'r Oes Iâ - Beth yw hwn a ble mae e? Trafodaeth yn y dosbarth.			<b>Amseru</b> 5 mun
Mae'r uned hon wedi'i bwriadu ar gyfer Cyfnod allweddol 2 (7-11 oed) a Chyfnod allweddol 3 (11-14). Da o beth fyddai ymweld â'r safle wrth wneud yr uned hon er nad yw hynny'n hanfodol. Nod yr uned hanes yw helpu disgyblion i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hardal leol. Drwy ymholi hanesyddol bydd disgyblion yn gallu ffurfio eu dehongliad hanesyddol eu hunain o'r safle a dod i ddeall sut mae wedi newid dros amser. Bydd disgyblion yn defnyddio dehongliadau artist o'r dirwedd yn seiliedig ar dystiolaeth archeolegol a daearyddol ochr yn ochr â gwybodaeth arall i'w helpu i ddatblygu eu dehongliad eu hunain.			<b>Amseru</b>
<b><u>Gweithgaredd un</u></b> Edrychwch ar y lluniau o'r mawnogydd a sut maen nhw wedi datblygu dros y blynyddoedd. (Gweler diagram llif athrawon ar gyfer trefn y darluniau a'r cardiau fflach) Dylai disgyblion wneud rhestr – Ewch ati i gymharu a chyferbynnu'r lluniau ac ysgrifennu rhestr o'r gwahaniaethau. Wrth ddechrau rhestr newydd, beth sy'n aros yr un fath? Dilynwch hyn drwy restru beth sy'n wahanol ac yn debyg ar y bwrdd gwyn. Nawr rhowch y lluniau mewn trefn ac yna cael y disgyblion i ddyfalu beth yw cyfnod amser pob darlun gan roi rhesymau dros eu hatebion. Dilynwch y PowerPoint ac esbonio beth yw mawnog.			10-15 mun
<b><u>Gweithgaredd dau</u></b> Ewch drwy wybodaeth y cardiau fflach ar y PowerPoint i'w paru gyda'r darluniau. Dosbarthwch y cardiau fflach a gofyn iddyn nhw eu paru gyda'r darluniau yn dilyn y drafodaeth yn yr ystafell ddosbarth. Yna dylai disgyblion dorri allan y cardiau fflach a'r darluniau bach ar y daflen i'w hychwanegu at linell amser. Cymerwch ddalen A3 o bapur a'i phlygu'n llorweddol ar draws y canol. Defnyddiwch y plyg i'ch helpu i dynnu llinell ar draws y plyg canol. Dechreuwch eich llinell amser 12500 o flynyddoedd yn ôl a'i therfynu heddiw. Nawr, dylai disgyblion ychwanegu'r darnau o'r cardiau fflach at eu llinell amser. (Mae templed llinell amser yn y pecyn os oes angen) Unwaith y bydd hyn wedi'i orffen gallai disgyblion ychwanegu dyddiadau arwyddocaol eraill mewn Hanes, h.y. eu dyddiad geni, y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd - Beth mae hyn yn ei ddweud wrthyn nhw am yr amser mae'n ei gymryd i fawnogydd dyfu?			10-15 mun  10 mun  10 mun
<b><u>Tasg ymestyn</u></b> Ysgrifennwch dudalen yn eich llyfrau gwaith yn disgrifio sut mae'r mawnogydd wedi ffurfio dros amser gan ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth sydd ar gael i chi heddiw. Gellir defnyddio hyn fel gwaith asesu. Gellid rhoi'r wybodaeth llinell amser sydd yn y pecyn i'r disgyblion, a'r daflen wybodaeth 'Beth yw mawnog?' sydd yn y pecyn taflenni gwaith.			15-30 mun
<b>Sesiwn lawn:</b> Gorffennwch gyda'r hyn mae'r disgyblion wedi sylwi am eu llinellau amser - Allan nhw feddwl am unrhyw ddigwyddiadau a allai lenwi rhan isaf eu llinell amser? Pam ddim?			
<b>Gwahaniaethu:</b> Templed llinell amser wedi'i gynnwys, templed siart llif wedi'i gynnwys hefyd.			
<b>Asesu:</b> Drwy farcio llinellau amser, llyfrau gwaith (os yw'r dasg ymestyn wedi'i chwblhau) a chwestiynau a thrwy drafodaeth yn yr ystafell ddosbarth.			
<b>Adnoddau:</b> PowerPoint, templed llinell amser, darluniau, cardiau fflach, taflen wybodaeth llinell amser (os oes			

angen) a thaflen wybodaeth Beth yw mawnog?  
Papur A3, sisyrnau a glud.

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**

**Rhifedd** - Gall y wers gysylltu â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau.*

**Llythrennedd** - Gall y wers gysylltu â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau yn ymateb i safbwyntiau*
- *Dewis y prif bwyntiau o destunau a nodi sut mae wybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w cefnogi.*
- *Ysgrifennu disgrifiad cynhwysfawr o bwnc gan gyflwyno wybodaeth, prosesau a syniadau'n glir a phriodol at y diben.*